Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cardiau adnoddau

# Gwasgariad hadau

## Hadau sy'n cael eu gwasgaru gan y gwynt



Gall coed a phlanhigion sydd â hadau pluog ysgafn gael eu cario i bellteroedd maith gan y gwynt. Mae gan rai coed a phlanhigion hadau ag 'adenydd'. Nid ydynt yn hedfan i ffwrdd ond yn troelli i lawr i'r ddaear.



# Hadau sy’n cael eu gwasgaru gan ddŵr



Mae coed a phlanhigion sy’n tyfu ger y dŵr yn aml yn dibynnu ar ddŵr i gludo eu hadau.



## Hadau sy'n cael eu gwasgaru gan anifeiliaid



Mae rhai anifeiliaid yn casglu hadau ac yn eu claddu yn y ddaear, gan weithiau anghofio amdanynt. Mae rhai anifeiliaid ac adar yn bwyta aeron ac yn ysgarthu'r hadau eto. Mae hadau gludiog fel pennau pigog yn glynu wrth flew a phlu.



# Hadau sy'n gwasgaru drwy ffrwydro



Mae rhai planhigion yn taflu eu hadau ar ôl iddynt aeddfedu. Math o symudiad cyflym gan blanhigyn yw hwn.

